# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 11-08 (p1) : 25 Ebrill 2008**

## Ymholiad y Pwyllgor i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru: Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru

### 1. Rhagair

1.1 Mae Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI) yn croesawu'r cyfle yma i amlinellu'r cyfraniadau y mae'n eu gwneud i economi Cymru a thu hwnt ac hefyd i gymdeithas yn fwy cyffredinol. Mae'r cyfraniadau economaidd craidd yn natblygiad gweithlu tra medrus sy'n addas ar gyfer diwydiannau seiliedig ar wybodaeth, ac ymgymryd â throsglwyddo gwybodaeth ac ymchwil i gefnogi busnesau a'r sector cyhoeddus. Mae NEWI hefyd yn gwneud cyfraniadau sylweddol i gymdeithas yn yr ardal, yn fwyaf amlwg o ran ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch, cefnogi datblygiad diwylliannol yr ardal, a chynyddu amrywiaeth y boblogaeth yn y fro trwy ddenu myfyrwyr a staff rhyngwladol.

### 2. Cefndir NEWI

2.1 Mae'r Athrofa wedi'i lleoli ar ddau gampws yn nhref Wrecsam. Mae ganddi o gwmpas 8,000 o fyfyrwyr cofrestredig, llawer ohonynt yn rhan-amser. Mae'r nifer o fyfyrwyr cyfatebol llawn-amser ychydig dros 4,000. Mae gan NEWI sylfaen eang o bynciau ac y mae wedi'i rannu'n saith ysgol, sef: (i) celf a dylunio, (ii) busnes, (iii) cyfrifiadura a thechnoleg cyfathrebu, (iv) addysg a chymuned, (v) iechyd, gofal cymdeithasol, gwyddorau chwaraeon ac ymarfer, (vi) dyniaethau, a (vii) gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae gan y rhan fwyaf o gyrsiau ffocws proffesiynol. Mae NEWI yn arbennig o nodedig am ei lwyddiant mewn ehangu cyfranogiad a gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr yn cyflenwi cyrsiau ar lefel addysg uwch. Mae gan NEWI bocedi o ragoriaeth mewn ymchwil gyda nifer gynyddol o grwpiau ymchwil yn gwneud cyfraniadau i gwmnïau yn lleol ac yn fyd-eang.

2.2 NEWI yw'r unig brif ddarparwr addysg uwch yng ngogledd ddwyrain Cymru, sydd yn un o'r ardaloedd mwyaf poblog ac economaidd o bwys yn y wlad. Y sefydliad addysg uwch Cymreig agosaf arall yw Prifysgol Bangor, sydd tua 70 milltir i ffwrdd. Mae NEWI yn gydweithredwr gweithredol a pharod iawn gyda sefydliadau addysg eraill ar lefel addysg uwch a phellach. Mae gan NEWI bartneriaethau cryf gyda cholegau addysg bellach lleol a rhanbarthol. Fodd bynnag mae ganddo lai o gydweithrediadau gyda sefydliadau addysg uwch Cymru oherwydd ei leoliad daearyddol. Y mae'n llawer haws i NEWI gydweithredu gyda llawer o brifysgolion yn Lloegr na chyda phrifysgolion eraill yng Nghymru oherwydd ei leoliad, er nad oes yna fecanweithiau cyllido penodol yn ei gefnogi i wneud hynny. Gan hynny mae NEWI yn llai tebygol o allu elwa o gronfeydd adgyfluniadol a chydweithredu Cymreig na'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru.

2.3 Mae NEWI y  aelodaeth cyswllt o Brifysgol Cymru ond yn dymuno sicrhau teitl prifysgol llawn yn ei rinwedd ei hun. Mae NEWI yn hynod o falch fod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch wedi cefnogi NEWI yn ddiweddar iawn i gael ei rymoedd gwobrwyo graddau wedi'u haddysgu ei hun. Mae NEWI yn disgwyl gwneud cais i'r Cyfrin Gyngor am deitl prifysgol yn ystod 2008, ac wedi croesawu cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad yn ei gais am statws o'r fath.

### 3. Cyfraniad NEWI i Greu Gweithlu Tra Medrus

3.1 Mae NEWI yn ymfalchïo yn ei gyfraniad cyffredinol i hyfforddiant gweithlu tra medrus i Gymru. Yn ôl arolwg Cyrchfan Gadawyr Addysg Uwch (CGAU), mae cyflogaeth graddedigion yn NEWI yn 93% (ar gyfer graddedigion 2006) wedi'i diffinio yn ôl termau cyrchfannau graddedigion 6 mis ar ôl graddio. Mae cyflogadwyedd yn golygu mynd i waith cyflogedig, astudiaethau pellach, gweithio ac astudio, ymgymryd â gwaith gwirfoddol, neu fod yn hunagyflogedig. Mae graddedigion yn NEWI yn mynd i waith cyflogedig ar lefel raddedig ar raddfa o 78% (graddedigion gradd gyntaf, 2006). Mae hyn wedi bod yn raddfa gyson mwy neu lai am y 3 blynedd diwethaf. Mae NEWI yn arbennig o falch fod y raddfa uchel yma o gyflogaeth mewn swyddi lefel raddedig yn cael ei chyflawni o ystyried fod NEWI yn ymroddedig i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch a bod oddeutu 70% o'i fyfyrwyr o gartrefi incwm isel (gydag incwm o lai na £17,500 y flwyddyn). Mae hyn yn dangos gwerth atodol sylweddol ac yn ogystal ag arwain at gyflenwi staff gyda chymwysterau uchel ar gyfer busnesau lleol a chenedlaethol, y mae hefyd yn gweddnewid lwc ac uchelgeisiau nifer o deuluoedd yng ngogledd ddwyrain Cymru.

3.2 Mae llawer o raddedigion NEWI hefyd yn aros yn yr ardal. Mae astudio'r arolygon CGAU diweddar yn rhoi darlun eglur iawn o symudiadau graddedigion 6 mis ar ôl iddynt raddio. O'r graddedigion rheiny o NEWI oedd yn byw yng Nghymru yn wreiddiol: arhosodd oddeutu 98% o raddedigion 2006 yng Nghymru. Mae'r ffigwr yma yn adlewyrchu (i) y niferoedd cynyddol o raddedigion "aeddfed" sydd yn llai tebygol o symud oherwydd ymrwymiadau teuluol a rhwydweithiau cymunedol; (ii) fod oddeutu 30% o raddedigion wedi astudio yn rhan-amser tra'n gweithio'n bennaf o fewn busnesau lleol, awdurdodau lleol a'r GIG (â'r cyrsiau a gwblhawyd yn ei galluogi i symud ymlaen o fewn eu priod fudiadau) a (iii) y lefel dda o swyddi i raddedigion yn yr ardal yn sgîl presenoldeb Stadau Diwydiannol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a'r cysylltiadau teithio da i ardaloedd o weithgarwch economaidd sylweddol fel Caer, Cilgwri, Glannau Merswy a Manceinion.

### 4. Cysylltiad NEWI gyda Chyflogwyr a Mudiadau Allanol Eraill wrth Gyflenwi Cyrsiau a Gwella Cyflogadwyedd Graddedigion

4.1 Mae NEWI wedi rhoi cryn sylw i gysylltu gyda chyflogwyr, cyrff sector cyhoeddus, a Chynghorau Sgiliau Sector yn ei raglenni addysgol. Mae NEWI yn rhoi pwyslais ar ei gryfderau fel athrofa cymdeithasol-economaidd ddwys, gan ddarparu myfyrwyr tra cyflogadwy sydd â'r ystod a'r dyfnder o wybodaeth pwnc, profiad proffesiynol a nodweddion a sgiliau generig i gwrdd ag anghenion cyflogedigion. Cafwyd datblygiadau cyfunol ym maes cyflogadwyedd, gan gynnwys cyflwyniad Graddau Sylfaen newydd seiliedig ar bartneriaethau tridarn gyda diwydiant a cholegau addysg bellach (fel y rhaglen mewn Peirianneg Awyrofodol a gyflenwir yn Aribus UK ar y cyd â Choleg Glannau Dyfrdwy). Mae perthnasau cynhyrchiol pellach yn cael eu datblygu gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector, a chyflogwyr mewn sectorau penodol, gan arwain er enghraifft at ddatblygiad rhaglenni newydd mewn Awtomasiwn, Offeraeth a Rheolaeth a rhaglenni Meistri mewn busnes wedi'u haddasu i anghenion clystyrau diwydiant penodol.

4.2 Tra bod trefniadau cydweithrediadol o'r fath yn gweithio'n dda iawn ac yn cynnig model rhagorol ar gyfer darpariaeth addysg y dyfodol, cred NEWI fod ystyriaethau ariannol yn aml yn llesteirio cwmnïau mawrion rhag mynd ati i ddatblygu darpariaeth addysgol gydweithrediadol o'r fath gyda sefydliadau addysg uwch. Mae datblygiad rhaglenni gradd cwmni-benodol wedi'u haddasu'n fanwl yn ddrud ac ymddengys yn aml nad yw'r cyflogwyr yn ddigon parod i wneud y lefel o fuddsoddiad sydd ei angen. Yn yr un modd nid oes cyllido arbennig ar gael gan ffynonellau cyhoeddus i gefnogi'r math yma o ddatblygiad. Ond cred NEWI y gallai llawer mwy o gyflenwadau addysgol cydweithrediadol fod yn bosibl pe gellid dod o hyd i ffordd addas i'w hadnoddu.

4.3 Yn ogystal â gweithio gyda chyflogwyr i gyflenwi rhaglenni academaidd cydweithrediadol, mae NEWI wedi gwneud defnydd o'r fenter

"Go Wales" i annog myfyrwyr a graddedigion i gael profiad o weithio mewn mentrau bychain a chanolig, nad ydynt yn cael eu hystyried yn aml. Mae NEWI wedi elwa o gyllid Go Wales o 2003 i 2007 a ddaeth i gyfanswm o £401,300 a darparwyd £133,766 gan gronfeydd strwythurol ESF. Gwelodd mentrau bychain a chanolig elw uniongyrchol o £125,000 trwy gymorthdaliadau ar gyfer lleoliadau gwaith a chyllido ar gyfer hyfforddiant i'w graddedigion diweddar. Mae atborth gan y cwmnïau lletyol wedi bod yn gadarnhaol iawn ar y cyfan ac ers 2005 mae 74% o leoliadau wedi troi'n swyddi lefel raddedig.

## 5. Cyfraniad NEWI i Ddatblygiad Sgiliau Entrepreneuraidd a Ffurfio Busnes Newydd

5.1 Mae NEWI yn cymryd datblygiad sgiliau entrepreneuraidd ymhlith ei fyfyrwyr a'i raddedigion yn ddifrifol iawn. Mae addysg entrepreneuriaeth yn golygu mwy na pharatoi myfyrwyr a graddedigion ar gyfer hunangyflogaeth a ffurfio busnes. Mae'n ceisio helpu unigolion i adnabod ac ychwanegu at gryfderau a all eu helpu i lwyddo gyda dewisiadau gyrfa a bywyd. Arweinir datblygiad cefnogaeth seiliedig ar gwricwlwm gan Ddatblygydd Entrepreneuriaeth sy'n gweithio gyda staff academaidd i helpu i ddynodi'r mathau penodol o ymyrraeth allgyrsiol (megis gweithdai, cyrsiau, a chystadlaethau, yn canolbwyntio ar y rheiny sydd â rhywfaint o ddiddordeb mewn gweithgareddau busnes yn barod).

5.2 Mae NEWI yn cefnogi ei fyfyrwyr a'i raddedigion i sefydlu busnesau newydd trwy fecanweithiau Rhaglen Ddeillio Cymru a thrwy ddarparu lle i fusnesau ddatblygu yn ei Ganolfan Arloesi. Ers iddo agor yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2003, mae Canolfan Arloesi NEWI wedi darparu ystod o wasanaethau cefnogi a chefnogaeth ymarferol wedi'i darparu gan dîm rhyngddisgyblaethol "Sparks", gan gyfannu'r ddarpariaeth fwy ffurfiol a gynigir trwy gynllun "Ysgoloriaeth Entrepreneur" y Gronfa Datblygu Gwybodaeth (CDG) a Rhaglen Ddeillio Cymru. Mae'r gefnogaeth honno wedi galluogi 19 cwmni i gael eu ffurfio hyd yn hyn trwy Raglen Ddeillio Cymru, gyda 38 Ysgoloriaeth CDG wedi'u gwobrwyo (gan ffurfio 17 cwmni). Mae'r cwmnïau hyn yn cyflogi tua 50 o bobl.

5.3 Mae NEWI yn cynllunio ehangiad sylweddol o ddarpariaeth ei gyrsiau academaidd sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol. Mae NEWI hefyd yn ymroddedig i adeiladu Canolfan Dylunio, Technoleg a Chyfryngau newydd erbyn 2010, a fydd yn ganolbwynt ar gyfer ei weithgareddau diwydiannau creadigol. Bydd gan y Ganolfan yma le i fusnesau newydd ddatblygu yn y sector diwydiannau creadigol sydd â chryn botensial ar gyfer y dyfodol, tybier.

## 6. Cyfraniadau Ymchwil NEWI i'r Economi

6.1 Er nad yw'n adnabyddus yn gyffredinol fel sefydliad ymchwil ddwys, mae gan NEWI bocedi o ymchwil penigamp a ymgymrodd ag Ymarfer Asesu Ymchwil 2008 mewn pum maes pwnc. Mae llawer o ymchwil NEWI yn gymwysiedig o ran natur ac yn werthfawr i fusnesau a mudiadau sector cyhoeddus. Mae incwm ymchwil a chysylltiedig ag incwm NEWI yn fwy na £1 miliwn y flwyddyn. Mae gan NEWI wyth Canolfan Ymchwil, sef: Uned Ymchwil Cynhwysiad Cymdeithasol, y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Iechyd a Chymuned, Canolfan Ymchwil Peirianneg, y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Gymwysedig i'r Rhyngrwyd, y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Celf a Dylunio, y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Menter Gynaliadwy, y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Addysgol, a'r Ganolfan Ymchwil Gwyddoniaeth Defnyddiau.

6.2 Y Ganolfan Ymchwil Gwyddoniaeth Defnyddiau yw'r Ganolfan Ymchwil fwyaf yn NEWI ac yn adnabyddus yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ei hymchwil am ei ymchwil i bolymerau toddadwy mewn dŵr a hydrocoloidau. Mae ymchwil yn y Ganolfan yma wedi bod o ddiddordeb mawr i gwmnïau allanol ac wedi arwain at lefel dda o ymchwil wedi'i chomisiynu gan ddiwydiant. Er enghraifft mae'r cwmni bwyd Siapaneaidd, San-Ei-Gen FFI Inc, wedi comisiynu gwerth dros £1 miliwn o ymchwil o'r Ganolfan yma mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r fath gyllid o dramor yn cefnogi swyddi yn NEWI yn uniongyrchol yn y maes gwyddonol tra arbenigol yma. Y mae hefyd yn cefnogi cynhyrchu ychwaneg o wybodaeth newydd. Mae datblygiadau diweddar a wnaed gan y Ganolfan mewn hydro-gelau ar gyfer gofal clwyfau wedi arwain at greu cwmni deillio newydd y disgwylir iddo fod yn hynod lwyddiannus o ystyried maint y farchnad gofal clwyfau yn fyd-eang.

6.3 Ar wahân i ymchwil ar gyfer diwydiant, soniwyd am naw cydweithrediad ymchwil gyda mudiadau yn y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus yn 2005/06, gyda chanlyniadau cysylltiedig â gwella cynaliadwyedd mentrau cymunedol, gwella darpariaeth addysgol, gwella gwasanaethau iechyd a thaclo cam-drin cyffuriau. Yn fwy diweddar mae NEWI wedi ymgymryd â gwaith atal AIDS YN Ne Affrica gyda chefnogaeth UNESCO.

## 7. Gweithgarwch Trosglwyddo Gwybodaeth NEWI

7.1 Mae NEWI wedi bod yn weithredol iawn yn trosglwyddo gwybodaeth i fusnesau a'r sector cyhoeddus trwy fecanweithiau, fel cynllun Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (PTG). Mae cyfranogiad mewn rhaglenni PTG wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar (yn arbennig mewn Gwyddoniaeth, Cyfrifiadura a Pheirianneg). Mae yna bum rhaglen gyfredol gyda chwmnïau yng Nghymru a Lloegr. Cwblhawyd naw rhaglen yn y flwyddyn a aeth heibio. Enghraifft nodweddiadol o raglen PTG ddiweddar yw Soneflex URP Ltd, cwmni bychan sy'n gweithgynhyrchu gorchudd wal allanol gro plastig/carreg i'w ddefnyddio yn y farchnad adeiladau adeiladu system. Credai perchnogion y cwmni fod yna bwyslais annigonol ar farchnata ac felly nad oedd y busnes yn gallu ffynnu. Prif amcanion y rhaglen PTG gyda NEWI oedd helpu'r cwmni i fod yn fwy marchnad-gyfeiriedig ac yn sgîl hynny sefydlu diwylliant o arloesi. Datblygwyd system wybodaeth marchnata ddadansoddol. Cafodd y Cyfrannog graddedig a gyflogwyd ar y rhaglen gyfoeth o brofiad masnachol yn sgîl y gwaith, ac o ganlyniad ymunodd â chwmni fel aelod o'i dîm o uwch reolwyr.

7.2 Mae NEWI hefyd wedi trosglwyddo gwybodaeth i fusnesau trwy fentrau hyfforddi a datblygu a gefnogir gan Gronfa Datblygu Gwybodaeth (CDG) Llywodraeth y Cynulliad. Enghraifft dda o hyn yw prosiect y Consortiwm Cyfryngau Digidol dan arweiniad NEWI, ond mewn cysylltiad â sawl sefydliad addysg uwch arall yn ogystal ynghyd â Skillset, y cyngor sgiliau sector ar gyfer y diwydiannau sain-weledol. Mae'r prosiect yma wedi cynnwys datblygu defnyddiau hyfforddi yn cwmpasu Hanfodion Dylunio, Rheolaeth, ac Eiddo Deallusol a gafodd eu cychwyn a'u gwerthuso gyda 30 cwmni ledled Cymru. Aethpwyd â'r gwaith hwnnw yn ei flaen yn ddiweddar trwy gyfres o weithdai, yn cynnwys siaradwyr cyweirnod o'r sector ac yn darparu cyfuniad da o gynnwys diwydiannol ac academaidd, a fynychwyd gan fwy na 200 ymarferydd o ystod eang o gwmnïau yn y sector ledled Cymru. Ar ôl cwblhau gwaith wedi'i gyllido gan CDG, mae'r sefydliadau addysg uwch dan sylw mewn lle da i gynnal ac ymestyn eu rhyngweithio gyda busnesau yn y sector diwydiannau creadigol a chynnig a darparu hyfforddiant a datrysiadau trosglwyddo gwybodaeth eraill wedi'u haddasu i gwrdd ag anghenion penodol.

7.3 Agwedd allweddol arall o drosglwyddo gwybodaeth NEWI yw datblygu gwybodaeth sy'n deillio o ymchwil a datblygiad uwch NEWI. Mae NEWI yn ddiweddar wedi sefydlu tri grŵp ymchwil yn yr OpTIC Technium yn Llanelwy, sydd yn canolbwyntio ar wneud defnydd masnachol o dechnolegau newydd. Y grwpiau yw'r Ganolfan ar gyfer Optigau Modern, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddiau datblygedig ar gyfer arddangosfeydd holograffig 3D; grŵp Polymerau yn canolbwyntio ar fathau newydd o bolymerau cyfansawdd a pheirianneg adwaith polymereiddio; a grŵp Ffotofoltäig, yn canolbwyntio ar ddefnyddiau newydd ar gyfer celloedd ynni heulol. Mae gan yr eiddo deallusol a gynhyrchir ym mhob un o'r meysydd ymchwil hyn botensial masnachol sylweddol. Mae NEWI wedi cyfranogi'n weithredol mewn cynlluniau CDG i gefnogi masnachu eiddo deallusol, gan gytuno'n ddiweddar (er enghraifft) ar drwyddedau yn ymwneud â chosmetigau ac i gadarnhau gweithgynhyrchu.

## 8. Cyfraniad Economaidd NEWI fel Cyflogwr a Defnyddiwr Gwasanaeth

8.1 Mae trosiant blynyddol NEWI oddeutu £30 miliwn sy'n cael ei wario yn bennaf ar brynu gwasanaethau ac ar gyflogau ei staff, a ddefnyddir yn ei dro yn y pen draw i brynu nwyddau a gwasanaethau yn lleol ac yn rhanbarthol. Ynghyd â grym gwario ei fyfyrwyr, amcangyfrifir fod cyfraniad uniongyrchol cyffredinol NEWI i'r economi leol, oherwydd ei fodolaeth yn unig, oddeutu £60 miliwn y flwyddyn. O gymryd grym gwario cynyddol ei raddedigion i ystyriaeth, byddai'r ffigwr yma yn sylweddol uwch.

## 9. Cyfraniadau Cymdeithasol a Diwylliannol Ehangach NEWI

9.1 Yn ogystal â'i gyfraniadau economaidd craidd, mae NEWI yn gwneud cyfraniadau diwylliannol o bwys i'w ardal. Mae'r ganolfan darganfod gwyddoniaeth Techniquest@NEWI wedi denu dros 150,000 o ymwelwyr i'r ganolfan a thrwy waith estyn allan ers iddi gael ei sefydlu yn 2003 ac yn gweithio gyda thua 350 o ysgolion, grwpiau cymunedol, busnesau a mudiadau eraill. Hefyd yn y maes gwyddoniaeth, mae NEWI yn dal i fod yn bartner blaenllaw wrth drefnu a darparu Gŵyl Wyddoniaeth Wrecsam (cynhaliwyd y 10fed Ŵyl Wyddoniaeth ym mis Mawrth 2008).

9.2 Mae NEWI wedi arwain Prifysgol y Plant, Wrecsam, sydd erbyn hyn yn gweithio gyda thua 100 mudiad yn y fwrdeistref sirol gyda thros 6,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau achrededig tu allan i'r ysgol. Erbyn hyn mae hyn yn darparu "model rôl" ar gyfer sawl awdurdod lleol yng Nghymru. Mae NEWI wedi sefydlu "Calon FM", a gafodd y drwydded ddarlledu Radio Cymunedol gyntaf, ac yn wir yr unig un i'w dal gan brifysgol yng Nghymru. Mae Calon FM, a ddechreuodd ddarlledu rownd y cloc ym mis Mawrth 2008, yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr i bobl ardal Wrecsam. Mae Neuadd William Aston NEWI yn awr yn darparu lleoliad ar gyfer cynadleddau a chyngherddau gan ddenu dros 25,000 o bobl bob blwyddyn, ac erbyn hyn mae Oriel 103 yn arddangosle ar gyfer artistiaid lleol a rhyngwladol a fwynhëir gan fwy na 5,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

9.3 Mewn chwaraeon, mae NEWI wedi sefydlu academïau chwaraeon gyda'i bartner addysg bellach lleol Coleg Iâl gan ddefnyddio chwaraeon fel cyfrwng ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch a phellach. Mae 72 o fechgyn a merched wedi mynd trwy'r academi gyntaf a sefydlwyd mewn pêl-droed ac arweiniodd ei lwyddiant at sefydlu academïau cyffelyb yn 2006/07 mewn pêl-rwyd a hoci. Erbyn hyn mae gan NEWI gae hoci Astroturf sylfaen dŵr wedi'i achredu gan y Ffederasiwn Hoci Rhyngwladol, a gynhaliodd uwch dwrnamaint rhyngwladol pedair cenedl Ffederasiwn Hoci Ewrop ym mis Gorffennaf 2007 a chynhelir cystadleuaeth tlws cenhedloedd Ewropeaidd i ddynion ym mis Awst 2009